**Barry Davies LL.B (Hons)**
**Solicitor/Cyfreithiwr**
*Head of Legal and Democratic Services*
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

To: Cynghorwyr: Nancy Matthews, Graham Rees,
Michael Priestly, Eryl Williams, Julian Thompson-Hill,
Arwell Pierce, W. G. Roberts, R. G. Parry and Thomas H. Jones

CS/NG

1 Rhagryr 2009

Nicola Gittins

01352 702336

nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir cyfarfod **PARTNERIAETH TRIN GWASTRAFF GOGLEDD CYMRU yn YSTAFELL CLWYD, NEUADD y SIR, Yr WYDDGRUG, CH7 6NF,** ar **DYDD MERCHER, 9 RHAGRYR 2009** am **2.00p.m.** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Democrataidd)

## A G E N D A

**1. DATGAN DIDDORDEB**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**3. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL**

**4. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk
The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

5. **CYTUNDEB RHYNG AWDURDOD (ADRODDIAD BD)**

6. **ADRODDIAD CYNNYDD (ADRODDIAD SO)**

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL (AMSERLEN)**

8. **UNRHYW FUSNESS ARALL**

9. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 I YSTYRIED EITHRIO YR WASG A'R CYHOEDD**

   Mae'r eitem isod yn cael ei ystyried fel eithriad o dan paragraff 14 o ran 1 o atodlen 12A o'r Deddf Llywodraeth Lleol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

10. **ACHOS BUSNES AMLINELLOL (ADRODDIAD SP) A CYFLWYNIADAU GAN YMGYNGHORWYR TECHNEGOL AC ARIANNOL ALLANOL (CYFYNGEDIG)**

# CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd yn Siambr Arfon, Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon ddydd Iau 17 Medi 2009.

**Yn bresennol –** Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Nancy Mathews – Cyngor Sir Y Fflint
Y Cynghorydd Neville Phillips – Cyngor Sir Y Fflint
Y Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd
Y Cynghorydd R.G. Parry – Cyngor Sir Ynys Môn

**Hefyd yn bresennol**
**Cyngor Sir y Fflint**
Mr Colin Everett, Mr Carl Longland, Ms Louise Pedreschi

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Mr Phil Brooks

**Cyngor Sir Ddinbych**
Mr Iwan Prys-Jones

**Cyngor Gwynedd**
Mr Dilwyn Williams a Mr Gwyn Parry Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Mr Arthur Owen

**Partneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru**
Mr Stephen Penny a Mr Steffan Owen

**Ymddiheuriadau** – Y Cynghorydd Graham Rees (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych), Y Cynghorydd T.H. Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Ms Hazel Nickless (Partnerships UK), Mr Barry Davies a Mrs Kerry Feather (Cyngor Sir y Fflint)

## 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod/swyddog oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2009 fel rhai cywir.

## 3. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod

## 4. ADRODDIAD COFRESTR RISG

Cyflwynwyd adroddiad Mr Stephen Penny a oedd yn tynnu sylw at rai o'r diwygiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg i adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyfredol o risgiau a'r mesurau lliniaru a oedd ar waith. Amlinellodd ystyriaethau'r adroddiad ac eglurodd y newidiadau a wnaed i ddwy risg bresennol a'r rhesymau tros y newidiadau hynny yn ogystal â phedair risg newydd a gynhwyswyd ar y gofrestr.

Nododd y byddai'r tîm prosiect ynghyd â'r ymgynghorwyr cyfreithiol, technegol ac ariannol yn cynnal adolygiad sylfaenol o'r risgiau a'r gofrestr risg yn ystod datblygiad yr Achos Busnes Amlinellol.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i'r gofrestr o hyn ymlaen gael ei pharatoi'n ddwyieithog a chytunodd y swyddogion â hynny.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad o'r Gofrestr Risg ar gyfer y prosiect.**

## 5. STRWYTHUR DRAFFT AR GYFER Y STRATEGAETH CYFATHREBU

Cyflwynwyd adroddiad Mr Stephen Penny ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu'r prif strwythur a chynnwys Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y prosiect.

Hysbysodd y swyddog y byddai'r prosiect yn cynnwys caffael gwasanaethau trin gwastraff gweddilliol a fyddai o ddiddordeb i randdeiliaid allanol a mewnol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Mae'n hanfodol i ganlyniad llwyddiannus i'r prosiect bod y strategaeth yn cael ei ddatblygu a'i gyflenwi i gefnogi'r prosiect. Mae nifer o risgiau allweddol wrth gyflenwi'r prosiect yn ymwneud â dealltwriaeth rhanddeiliaid allweddol o'r prosiect a rheoli cyfathrebu ac ymgysylltu ac felly bydd angen strategaeth gadarn i reoli'r risgiau hynny. Bydd y strategaeth yn ei ffurf bresennol yn cael ei ddatblygu ymhellach tros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda'r tîm prosiect ac awdurdodau partner ynghyd â'r Cynllun Craff am Wastraff, sef ymgyrch genedlaethol i sicrhau bod safonau cyfathrebu uchel mewn prosiectau gwastraff yn cael eu cyflawni, i ddatblygu'r strategaeth ymhellach. Dechreuodd y prosiect weithio ar yr Achos Busnes Amlinellol yn Awst 2009. Ar y pwynt hwn bydd angen ymdrin â nifer o feysydd allweddol o fewn y strategaeth sef –
a) Cymeradwyaeth fewnol – briffio allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid mewnol.
b) Cyfathrebu ac ymgysylltu cynnar gyda chymunedau a busnesau lleol a fyddai o bosibl yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y safleoedd cyfeiriol a enwir mewn Achos Busnes Amlinellol. (Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn dod yn eiddo i'r cyhoedd ac mae'n bwysig bod cyfathrebu ac ymgysylltu wedi dechrau'n fuan).
c) Paratoi cwestiynau ac atebion wrth ragweld diddordeb gan y cyfryngau a rhanddeiliaid yn ystod/ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol.
ch) Galluogi mewnbwn rhanddeiliaid i ddatblygu elfennau caffael allweddol y gellir eu cyflawni e.e. manyleb allbwn a fframweithau arfarnu caffael, a thrwy hynny leihau'r risg y gellir herio unrhyw broses cymeradwyo cynllunio dilynol yn llwyddiannus.
d) Paratoi hunaniaeth "partneriaeth" i gefnogi'r broses gaffael arfaethedig e.e. gwefan a fyddai'n mynd yn fyw yn union cyn dechrau'r broses gaffael.

Eglurodd y byddai'r Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda phob awdurdod partner ac ymgynghorwyr technegol i'r prosiect yn y lle cyntaf i ddatblygu ymhellach y gweithgareddau i gyflenwi'r strategaeth. Bydd y tîm prosiect yn ystyried sicrhau cyngor cyfathrebu/cysylltiadau cyhoeddus arbenigol unwaith y llunir yn derfynol blaenoriaethau cyffredinol y strategaeth.

Dyrannwyd cyllideb cyfathrebu ac ymgysylltu rhanddeiliaid o £100k ar gyfer 2009/10 a 2010/11 a £120k ar gyfer 2011/12 o fewn cyfanswm cyllideb a ddyrannwyd i'r prosiect.

Nododd bod y ffigurau hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned a gwaith ymgynghori sy'n gysylltiedig â unrhyw geisiadau cynllunio yn ogystal â chyfathrebu ac wedi ei osod ar sail profiad o anghenion prosiectau tebyg yn y gorffennol.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn yr adroddiad a nodi'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft.**
**b) Cytuno â'r meysydd ar gyfer ffocws cychwynnol fel a nodir uchod.**

## 6. PENODIADAU TÎM PROSIECT

Hysbysodd Mr Colin Everett i Mr Steffan Owen gael ei benodi'n ddiweddar yn Reolwr Prosiect ac estynnodd groeso iddo i'w gyfarfod cyntaf o'r cyd-bwyllgor.

Diolchodd Mr Owen am y croeso ac eglurodd iddo ddechrau yn ei swydd newydd ym mis Awst 2009 a chyn hynny bu'n gweithio yn y maes gwastraff gyda Chyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad Mr Stephen Penny yn rhoddi manylion ar y cynnydd yn y prosiect trin gwastraff. Hysbysodd y dylid cael ateb i reoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer y pump awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru sef Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn a fyddai'n cynorthwyo gyda gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi a lleihau'r tunnelli gwastraff gweddilliol a anfonir i dirlenwi gan sicrhau bod yr awdurdodau'n osgoi cosbau methu cyflawni'r Cynllun Lwfans Tirlenwi ac yn cyfarfod â thargedau'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol. Nododd statws y prosiect, y risgiau allweddol, diweddariad ar y gyllideb a rhagamcan o'r proffil gwariant rhwng 2009 a 2012.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cynnwys o hyn ymlaen, golofn ychwanegol yn y rhestr o weithgareddau i'w cwblhau, yn nodi'r hyn a ddigwyddodd. Cytunodd y swyddogion y byddai hynny'n bosibl.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ACHOS BUSNES AMLINELLOL/CYTUNDEB GWEITHIO AR Y CYD – CEFNOGAETH SYDD AR GAEL PARTHED Y PROSESAU CYMERADWYO AR GYFER AWDURDODAU PARTNER

Cyflwynwyd adroddiad Mr Stephen Penny yn gofyn am adborth gan yr aelodau ar y gefnogaeth posibl sydd ar gael i Awdurdodau Partner mewn perthynas â'r broses gymeradwyo ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol neu'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd.

Hysbysodd y cyflwynir yr Achos Busnes Amlinellol a Chytundeb Gweithio ar y Cyd i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Prosiect a'r Cyd-bwyllgor hwn yn Rhagfyr 2009. Cynhelir sesiynau briffio i'r aelodau cyn y cyfarfodydd hynny a bydd y Rheolwr Prosiect, Mr Steffan Owen yn cysylltu â'r aelodau i drefnu dyddiadau cyfleus ar gyfer eu cynnal. Bydd y Bwrdd Prosiect a'r Cyd-bwyllgor yn gallu gwneud argymhellion i gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol a Chytundeb Gweithio ar y Cyd i'r awdurdodau partner ac yna bydd yr awdurdodau partner yn cynnal eu prosesau cymeradwyo eu hunain. Unwaith y bydd pob awdurdod partner wedi rhoddi cymeradwyaeth, gellir cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'r Cynulliad i'w ystyried a'i gymeradwyo. Ar hyn o bryd, rhagwelir y byddai'r broses cymeradwyo ar gyfer awdurdodau partner unigol yn dechrau ar gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol/Cytundeb Gweithio ar y

Cyd a raglennwyd ar gyfer cylch Rhagfyr o'r Bwrdd Prosiect a'r Cyd-bwyllgor. Disgwylir y bydd pob cymeradwyaeth yn dod i law'r awdurdodau partner erbyn dechrau Mawrth 2010.

Eglurodd y byddai'r Tîm Rheoli Prosiect sef y Cyfarwyddwr Prosiect a'r Rheolwr Prosiect, ynghyd â'r ymgynghorwyr allanol ariannol, cyfreithiol a thechnegol ar gael yn ôl y galw i gynorthwyo pob awdurdod partner yn y broses cymeradwyo. Nododd y meysydd posibl canlynol lle y gellir darparu cefnogaeth i awdurdodau partner –
a) Briffio ar agweddau ariannol a thechnegol yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer llunwyr penderfyniadau a rhanddeiliaid mewnol. Gellir briffio byrddau prosiect mewnol, swyddogion gweithredol, pwyllgorau craffu a throsolwg neu swyddogion neu gyrff eraill sy'n aelodau.
b) Briffio ar agweddau cyfreithiol (a lle mae hynny'n addas, ariannol) y Cytundeb Gweithio ar y Cyd ar gyfer llunwyr penderfyniadau a rhanddeiliad mewnol. Gellir briffio byrddau prosiect mewnol, swyddogion gweithredol, pwyllgorau craffu a throsolwg neu swyddogion neu gyrff eraill sy'n aelodau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Nodi'r cymorth sydd ar gael y gellir ei gynnig i bob awdurdod partner yn ei brosesau cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol/Cytundeb Gweithio ar y Cyd.**
**b) Y dylai pob awdurdod partner ystyried pa gymorth y byddai ei angen yn y broses gymeradwyo, a hysbysu'r Cyfarwyddwr Prosiect erbyn 17 Hydref 2009 er mwyn caniatau rhaglennu cefnogaeth ac os oes angen, rhoddi cyfarwyddiadau i'r ymgynghorwyr.**

## 9. PAPUR GOSOD SEFYLLFA ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Rhoddodd Mr Stephen Penny ddiweddariad i'r aelodau parthed y safbwyntiau cychwynnol y bydd angen eu hystyried a'u mabwysiadu fel rhan o waith datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. Eglurodd y byddai datblygu'r Achos Busnes Amlinellol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sy'n bartneriaid, ddiffinio terfynau cyffredinol y contract h.y. pa elfennau a gaiff eu cynnwys a pha elfennau na chânt eu cynnwys.

Nododd, o gymryd na ellir cludo gwastraff yn uniongyrchol i unrhyw gyfleuster(au) trin gwastraff gweddilliol, dylai pob awdurdod gasglu gwastraff a'i gludo i leoliad(au) o fewn eu hardal i'w drosglwyddo i'r cyfleuster(au) trin gwastraff. Agwedd allweddol ar yr Achos Busnes Amlinellol yw diffinio os caiff y canolfannau derbyn a throsglwyddo hyn eu cynnwys fel rhan o'r contract cyffredinol i'w ddatblygu a'i weithredu gan y contractwr llwyddiannus, yn ogystal â'r cyfleusterau trin terfynol. Bydd y bartneriaeth yn adnabod ac yn sicrhau safleoedd trin gwastraff gyda chostau'r safleoedd hyn yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng aelodau'r bartneriaeth a fyddai'n sicrhau bod unrhyw safleoedd y maent yn berchen arnynt eisoes ar gael i'r bartneriaeth. Bydd dewisiadau sy'n cynnwys un safle'n unig a mwy nag un safle'n cael eu hystyried yn rhan o waith datblygu'r Achos Busnes Amlinellol. Bydd angen i'r Achos Busnes Amlinellol gytuno sut y byddai'r contract yn mynd i'r afael â gwastraff masnachol a bydd hefyd yn ystyried sut y byddai achosion o gyflwyno unrhyw gyfleusterau'n hwyrach na'r disgwyl yn cael eu trin a sut y byddai unrhyw gosbau'n cael eu gorfodi ar y contractwr.

Hysbysodd bod y farchnad bresennol yn mynnu bod lleiafswm tunnelli gwarantedig o wastraff yn mynd i bob cyfleuster ac y pennir uchafswm y tunnelli drwy gyfuniad o ffactorau megis gallu'r cyfleuster i drin gwastraff a gallu'r contractwr i wneud trefniadau eraill ar gyfer cael gwared â gwastraff. Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn ceisio nodi proffiliau tunnelli tebygol ar gyfer pob awdurdod sy'n bartner, ynghyd â'r systemau ar gyfer rheoli achosion o gyflawni mwy na'r disgwyl neu dangyflawni yn erbyn y proffil hwnnw.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Nodwyd y cynhelir cyfarfod o’r Bwrdd Prosiect ar 27 Tachwedd 2009 a chyfarfod o’r Cyd-bwyllgor ar 9 Rhagfyr 2009 – y ddau gyfarfod i’w cynnal yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

PTGGGC
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

**EITEM AGENDA RHIF: 7**

# CYFARFOD CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

## Amserlen Cyfarfodydd 2010

| **Dyddiad** | **Amser** | **Lleoliad (i'w gytuno)** |
|---|---|---|
| Dydd Gwener 12 Mawrth 2010 | 10.30am | Sir Ddinbych (Ruthin - yn amodol ar argaeledd ystafell) |
| Dydd Gwener 18 Mehefin 2010 | 10.30am | Ynys Môn (Llangefni - yn amodol ar argaeledd ystafell) |
| Dydd Gwener 3 Medi 2010 | 10.30am | Conwy (yn amodol ar argaeledd ystafell) |

FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL

EXEMPT INFORMATION SHEET

---

| | |
|---|---|
| COMMITTEE: | North Wales Regional Waste Joint Committee |
| DATE: | 9 December 2009 |
| AGENDA ITEM NO: | 9 |
| REPORT OF: | Project Manager – North Wales Residual Waste Treatment Project |

---

SUBJECT: Outline Business Case for Residual Waste Treatment Facilities

---

The Report on this item is NOT FOR PUBLICATION because of exempt information in accordance with the following section(s) or paragraph(s) of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:

| | Para | |
|---|---|---|
| Information relating to a particular individual * | 12 | [ ] |
| Information likely to reveal the identity of an individual * | 13 | [ ] |
| Information relating to financial/business affairs of a particular person * See Note 1 | 14 | [ √ ] |
| Information relating to consultations/negotiations on labour relations matter * | 15 | [ ] |
| Legal professional privilege | 16 | [ ] |
| Information revealing the authority proposes to: (a) give a statutory notice or (b) make a statutory order/direction * | 17 | [ ] |
| Information on prevention/investigation/prosecution of crime * | 18 | [ ] |
| For Standards Committee meetings only: | Sec | |
| Information subject to obligations of confidentiality | 18A | [ ] |
| Information relating to national security | 18B | [ ] |
| The deliberations of a Standards Committee in reaching a finding | 18C | [ ] |
| Confidential information which the Council is not permitted to disclose | 100A (3) | [ ] |

**PLEASE TICK APPROPRIATE BOX**

* Means exempt only if the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Note 1: Information is not exempt under paragraph 14 if such information is required to be registered under Companies Act 1985, the Friendly Societies Acts of 1974 and 1992, the Industrial and Provident Societies Act 1965 to 1978, the Building Societies Act 1986 or the Charities Act 1993.

**SCHEDULE 12A LOCAL GOVERNMENT ACT 1972**
**EXEMPTION FROM DISCLOSURE OF DOCUMENTS**

| | |
|---|---|
| **REPORT:** | Outline Business Case for Residual Waste Treatment Facilities |
| **AUTHOR:** | Project Manager - North Wales Residual Waste Treatment Project |
| **MEETING AND DATE OF MEETING:** | North Wales Residual Waste Joint Committee - 9 December 2009 |

I have considered grounds for exemption of information contained in the report referred to above and make the following recommendation to the Proper Officer:-

**Exemptions applying to the report:**
Paragraph 14.

**Factors in favour of disclosure:**
Transparency.

**Prejudice which would result if the information were disclosed:**
Disclosure of the complete document would be likely to seriously prejudice the Council's ability to undertaken an effective procurement process due to the commercially sensitive nature of some of the information contained in the Outline Business Case. This information relates to and is owned by each of the five authorities involved in the Partnership Project.

**My view on the public interest test is as follows:**
That the public interest test would be met by the publication of a redacted Outline Business Case with the commercially sensitive information blanked out until the whole document comes into the public domain following the contract award.

**Recommended decision on exemption from disclosure:**
That the report and Outline Business Case be considered as exempt under Paragraph 14 and the press and public be excluded during consideration of the item but an appropriately redacted Outline Business Case be published.

**Date:** 30 November 2009

**Signed:**

**Post:** Head of Legal and Democratic Services

---

I accept/do not accept the recommendation made above.

Proper Officer:

Date: 30 November 2009